

HYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd yn rhithiol ar 8 Rhagfyr 2020.

Yn bresennol: Cyngorydd Margaret M Roberts (Cadeirydd)
Cyngorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T LI Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R LI Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAGS, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams

Ymddiheuriadau: Cyngorydd Ieuan Williams

Hefyd yn Bresennol: Dim

2.00 o'r gloch yp – 3.30 o'r gloch yp

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	1. Cofnodion
DECISION	Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor Sir fel cofnod cywir:- <ul style="list-style-type: none">• 8 Medi 2020 (Cyfarfod Cyffredinol)• 8 Medi 2020 (Cyfarfod Blynyddol)• 27 Hydref 2020 (Cyfarfod Arbennig)
ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	2. Datganiad o Ddiddordeb
DECISION	Dim.
ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	4. Rhybydd o Gynnig yn Unol â Rheol 4.1.13.1 y Cyfansoddiad
DECISION	Cafodd y gwelliant i'r cynigiad ei gario fel â ganlyn:- Bod y Cyngor Sir yn ceisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU bod economi'r Ynys yn cael ei ddiogelu yn dilyn Brexit a'r Pandemig Covid-19.
ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	5. Cyflwyno deisebau
DECISION	Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	6. Mabwysiadu'r Ddogfen Cyflawni Blynyddol 2020-22
DECISION	PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Ddogfen Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2020/2022.

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	7. Cynllun Twf Terfynol
DECISION	<p>PENDERFYNWYD:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo'r Cynllun Busnes Cyffredinol fel y ddogfen sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel sail ar gyfer ymrwymo i'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. • Cymeradwyo'r darpariaethau yn y GA2 mewn perthynas â swyddogaethau anweithredol, ac yn benodol mabwysiadu'r trefniadau ar gyfer Sgriwtini a amlinellir yn Atodiad 3 y ddogfen honno, fel sail ar gyfer cwblhau'r cytundeb terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. • Awdurdodi'r corff atebol, Cyngor Gwynedd, i arwyddo'r llythyr Cynnig Cyllid Grant ar ran y Partneriaid. • Cymeradwyo'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gost benthyca sydd ei angen er mwyn hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf ac i gynnwys darpariaeth o fewn cyllideb y Cyngor i dalu'r cyfraniad hwn a'r cyfraniadau craidd ac atodol sydd wedi'u sefydlu fel sydd wedi'i nodi yn GA2 (ac ym mharagraffau 2.5. - 2.7 yn yr adroddiad). • Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau gyda'r Partneriaid fel sydd angen i gwblhau'r cytundeb.

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	8. Diwygio'r Amserlen Gyfansoddiadol mewn perthynas â phennu Cyllideb y Cyngor
DECISION	PENDERFYNWYD:- <ul style="list-style-type: none"> • bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio fel y nodir yn y tabl ym mharagraff 9 o'r adroddiad, a • bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Monitro wneud unrhyw newidiadau dilynol i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r diwygiadau a gymeradwywyd yn 10.1 o'r adroddiad.
ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	9. Adolygiad o Drefniadau Etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
DECISION	PENDERFYNWYD derbyn argymhellion y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.